

“ Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y sector defaid a nifer y ffactorau sy'n dylanwadu ar y farchnad ar hyn o bryd. ”

Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd,
Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes



Mae nifer o ffactorau yn parhau i effeithio ar y sector defaid yn ystod 2023 - gan gynnwys costau mewnbwn fferm uchel, pwysau chwyddiant ar ddefnyddwyr cig coch, a'r tywydd sy'n effeithio ar amodau tyfu glaswellt. Mae prisiau pwysau byw ŵyn yng Nghymru wedi bod yn gyfnewidiol yn ystod y flwyddyn hyd yma. Dechreuodd y flwyddyn gyda chyfartaledd is na lefelau blwyddyn yn gynharach, cyn cyrraedd uchafbwynt newydd o 356.8c/kg ar gyfer ŵyn tymor newydd

yn ystod diwedd mis Mai. Yn ystod yr wythnosau dilynol, cofnododd prisiau duedd tymhorol am i lawr yn gyffredinol, ond ers hynny maen nhw wedi sefydlogi rhywfaint ac maen nhw bellach yn cofnodi lefelau uwch na'r flwyddyn yn gynharach a'r cyfartaledd o 5 mlynedd. Mae prisiau mamogiaid difa wedi bod yn fwy cyfnewidiol o'u cymharu ag ŵyn, a dim ond yn ystod y ddaus fis diwethaf maen nhw wedi dangos twf yn erbyn lefelau blwyddyn yn gynharach.

CYFLENWAD

Mae data trwybwn Defra ar gael ar hyn o bryd hyd at fis Medi 2023. Wrth edrych ar y flwyddyn hyd yn hyn; mae cyfanswm trwybwn defaid **1.5 % yn uwch** na lefelau blwyddyn ynghynt ar 10.2 miliwn pen. Mae trwybwn ŵyn a defaid llawn dwf yn sbarduno'r cynnydd hwn - mae trwybwn ŵyn wedi codi 1.2% yn dilyn cyrraedd ei anterth ym mis Mawrth, Mehefin ac Awst eleni. Yn dilyn cario mwy o ŵyn hen dymor i mewn i 2023, roedd hyn i'w ddisgwyl. Mae trwybwn defaid llawn dwf hefyd yn uwch ar

y flwyddyn (3.7%) oherwydd bod niferoedd uwch yn dod ymlaen yn ystod 6 mis cyntaf y flwyddyn, ond mae'r niferoedd wedi bod yn unol â chyfartaledd tymhorol yn ystod mis Awst a Medi. Er bod niferoedd uwch cyffredinol yn cael eu prosesu mewn lladd-dai yn y DU, mae cyfaint y cig defaid sy'n cael ei gynhyrchu ar y farchnad ddomestig am y flwyddyn hyd yma ar hyn o bryd 1% yn is na lefelau blwyddyn yn gynharach ar 210,000 tunnell. Mae hyn oherwydd bod carcasau ysgafnach yn cael eu cyflwyno mewn lladd-dai yn y DU - ar gyfer ŵyn a defaid llawn dwf.

Mae ffigurau trwybwn ar gyfer y flwyddyn cnwd cig oen hyd yma (sy'n rhedeg o fis Mai ymlaen) yn dangos bod 4.89 miliwn o ŵyn wedi cael eu prosesu mewn lladd-dai yn y DU - sy'n debyg i lefelau'r flwyddyn flaenorol (cynnydd o 0.3%). Nid yw canlyniadau *Arolwg Mehefin* - fyddai'n tynnu sylw at faint cnwd ŵyn eleni - ar gael eto, ac felly mae'n anodd rhagweld faint o ŵyn sydd ar lawr gwlad, fodd bynnag, mae adroddiadau'r diwydiant yn awgrymu bod cnwd ŵyn eleni yn llai yn dilyn canrannau sganio ac wyna is.

MASNACH

Dim ond hyd at fis Awst mae data masnach CThEM ar gael ar hyn o bryd. Cafodd cyfanswm o 6,400 tunnell o gig defaid ffres/wedi'i rewi ei allforio yn ystod mis Awst - gostyngiad o 8% ar y flwyddyn - oherwydd bod llai o lwythi'n cael eu cludo i'r UE. Mae cyfeintiau o gig defaid a allforiwyd yn ystod y cyfnod o 8 mis i **fyny 10%** ar y flwyddyn, gyda 94% o gyfanswm cyfaint yn mynd i'r

UE. Mae rhai o wledydd yr UE wedi nodi gostyngiadau mewn cynhyrchiant, a fyddai o fudd i allforio y DU, ynghyd â llawer o gynnyrch Seland Newydd yn parhau i gael eu hanfon i Tsieina.

Mae cyfeintiau o gig defaid ffres/wedi'u rhewi a fewnforiwyd hyd yma yn 2023 i **lawr 24% ar y flwyddyn** i 33,000 tunnell, fodd bynnag, profodd cyfeintiau a fewnforiwyd ym mis Awst yn unig gynnydd

nodedig o dros 30% am y tro cyntaf eleni. Mae hyn oherwydd bod mwy o gig oen o Awstralia yn cael ei gynhyrchu a'i allforio yn dilyn pwysau ar eu prisiau gât y fferm, ac maen nhw hefyd yn gystadleuol iawn o ran pris ar y farchnad fyd-eang. Gan fod mewnforion domestig fel arfer yn profi gostyngiad tymhorol yn ystod yr adeg hon o'r flwyddyn wrth i gynhyrchiad y DU gynyddu, bydd y newid diweddar hwn i dueddiadau mewnforio yn cael ei fonitro.

GALW

Mae chwyddiant prisiau groser yn gostwng, ond mae'n dal i fod yn hanesyddol uchel. O ganlyniad, mae defnyddwyr yn parhau i brofi prisiau uwch mewn siopau ac felly'n parhau i chwilio am ffyrdd o reoli eu cyllidebau. Ar gyfer cig oen; mae'r pris cyfartalog mewn siopau ym Mhrydain wedi bod yn cofnodi cynnydd nodedig dros y 18 mis diwethaf. Er enghraifft, yn ystod y 4 wythnos a ddaeth i ben ar 1 Hydref 2023, pris cyfartalog cig oen mewn siopau oedd £12.24/kg - cynnydd o 21% ar y cyfnod cyfatebol yn 2020 lle'r oedd y cyfartaledd yn £10.10/kg. Mae hyn yn rhoi pwysau ar bŵer gwario defnyddwyr. Fodd bynnag, mae data Kantar am y cyfnod 12 wythnos diweddaraf hyd at 1af Hydref yn datgelu bod maint yr oen a werthwyd **2% yn uwch** na'r flwyddyn, wedi'i sbarduno gan gynydd o 5% yn nifer y prynwyr yn y categori. Mae hyn yn awgrymu bod defnyddwyr yn dychwelyd i'r categori, er gwaethaf y prisiau uwch, ac efallai yn bwyta cig oen fel rhywbeth arbennig yn achlysurol. Er gwaethaf hyn; mae gwerthiant cyfaint cig oen am y flwyddyn hyd yma wedi gostwng 1% ar y flwyddyn.

Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?

Byddai adroddiadau am gnwd ŵyn llai yn rhoi cymorth i'r sector - fodd bynnag byddai hyn yn arwain at lai o gynnyrch ar gael i'w allforio. Mae tyfiant glaswellt yn parhau i fod yn ddigonol - sy'n darparu cefnogaeth i'r farchnad ŵyn stôr ar hyn o bryd. Mae'r galw gan ddefnyddwyr yn parhau i fod yn fywiog wrth i gyllidebau barhau'n dynn, ond mae optimistiaeth ar gyfer Nadolig da arall o ran y galw am gig coch.

Crynodeb Misol y Farchnad

GWARTHEG

Prisiau – wythnos yn dod i ben 21 Hydref

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **263.3c/kg**. Roedd hyn:

- +4.5c ar yr wythnos flaenorol,
- + 17.0c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 57.0c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 206.3p/kg).

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd 477.3c/kg. Roedd hyn:

- + 0.1c ar yr wythnos flaenorol,
 - 40.2c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.
- Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod yn 471.8c/kg (+0.2c ar yr wythnos), teirw ifanc ar 460.0c/kg (+0.1c), a gwartheg difa ar 305.3c/kg (-7.5c).

Trwybwn – Medi 2023

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 219,800 pen – gostyngiad o 3% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 161,200 pen - i lawr 1% ar y flwyddyn.
 - bustych +1%, heffrod -2%, a theirw ifanc -5%.
- Cyfartaledd pwysau carcasu gwartheg dethol = 340.3kg (-1.25kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 49,900 pen - i lawr 5% ar y flwyddyn.

DEFAID

Prisiau – wythnos yn dod i ben 21 Hydref

Pwysau byw cyfartalog ŵyn dethol SQQ mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **250.9c/kg**. Roedd hyn:

- - 2.6c ar yr wythnos flaenorol,
- + 30.4c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 56.3c uwchlaw'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 194.6c/kg).

Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£64.90/pen**. Roedd hyn:

- + £1.60 ar yr wythnos flaenorol,
 - £12.30 uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.
- Roedd prisiau ŵyn pwysau marw Prydain Fawr yn 556.7c/kg ar gyfartaledd (+7.1c ar yr wythnos).

Trwybwn – Medi 2023

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.1 miliwn pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 993,500 pen – i lawr 4% ar y flwyddyn.
- Pwysau cyfartalog carcasu ŵyn = 19.6kg (tebyg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 145,500 pen – cynnydd o 2% ar y flwyddyn.

MOCH

Prisiau – wythnos yn dod i ben ar 14 Hydref

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **220.1c/kg**. Roedd hyn:

- - 1.0c ar yr wythnos flaenorol,
- + 16.2c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 54.1c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 165.8c/kg).

Trwybwn – Medi 2023

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 801,200 pen – gostyngiad o 11% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 779,800 pen – i lawr 11% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcasu moch heb fagu cyfartalog = 89.7kg (+1.0kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 21,300 pen – i lawr 7% ar y flwyddyn.

